# Camau Cystadlu Eisteddfod yr Urdd

Eisteddfod a'r Celfyddydau

## 1 Ymaelodi

### Creu cyfri o fewn Y Porth

Y cam cyntaf yw creu cyfri a phroffil o fewn Y Porth, sef ein system ar lein. Ar ôl creu cyfri, bydd modd i ti fwrw ati gydag aelodaeth yr Urdd, a gellir ddychwelyd i'r Porth ar unrhyw adeg i wirio neu newid manylion.

### Ymaelodi gyda'r Urdd

Unwaith fyddi di wedi creu dy gyfri o fewn Y Porth, gelli ymaelodi dy hun gyda'r Urdd (os yn 16+ oed), neu ychwanegu plentyn / plant dy deulu i'w ymaelodi gyda'r Urdd.
Ar ôl ychwanegu a thalu byddi di / dy blant yn aelodau o'r Urdd ar gyfer eleni, a chei e-bost i gadarnhau hynny. Gellir dychwelyd i'r Porth ar unrhyw adeg i wirio manylion.

## 2 Rhestr Testunau

Mae'r Rhestr Testunau yn cynnwys holl gystadlaethau'r Eisteddfod, boed yn perfformio ar lwyfan, Gwaith Cartref, CogUrdd neu Gelf, Dylunio a Thechnoleg. Mae'r Rhestr Testunau yn nodi beth yw darn gosod / thema pob cystadleuaeth, gan gynnwys ble gellir archebu neu eu derbyn.

Mae'r Rhestr Testunau yn cynnwys rheolau cyffredinol cystadlu a rheolau ar gyfer adrannau penodol. Mae'n syniad i ti ymgyfarwyddo â'r holl reolau yma. Mae'r Rhestr Testunau ar gael yma.

## 3 Dyddiadau Pwysig

Mae rhestr o ddyddiadau pwysig ar gael yn y Rhestr Testunau ac ar wefan yr Urdd. Bydd dyddiadau lleol i dy ardal ar gael o dan Fy Ardal: urdd.cymru/cy/fy-ardal/ ac ar gyfryngau cymdeithasol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cofrestru Cogurdd a Poburdd yn cau **20/10/25** | Cofrestru yn agor **01/12/25** | Dyddiad cau cofrestru Cystadlaethau Dawns ac Offerynnol **19/01/26** | Cofrestru cystadlaethau Llwyfan yn cau **09/02/26** |
| Cofrestru Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu yn cau **02/03/26** | Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth | Dyddiad cau cofrestru Cystdlaethau CDT **20/04/26** | Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd **23/05/26 - 29/05/26** |

# 4 Cofrestru ar lein drwy'r Porth

Gellir cofrestru ar gyfer yr holl gystadlaethau drwy dy gyfrif Porth. Mae modd i ti gofrestru cystadlaethau unigol dy hun neu fel rhiant, ond bydd angen i'r ysgol/cangen cofrestru cystadlaethau torfol (grwpiau).

Gwna'n siŵr dy fod yn cofrestru ar gyfer y gystadleuaeth gywir, a dy fod wedi cwblhau'r broses ymaelodi o flaen llaw. Sicrha fod darnau hunanddewisiad wedi ei uwch lwytho, gan gynnwys caniatâd hawlfraint ar gyfer y darnau yma.

# 5 Rowndiau Cystadlu

**Rownd 1**
Eisteddfod Cylch (lleol)

→

**Rownd 2**
Eisteddfod Rhanbarth (Sir)

→

**Rownd 3**
Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd

# 6 Eisteddfod Cylch

Bydd dyddiadau'r Eisteddfod Cylch ar gael ar wefan yr Urdd, drwy holi'r Ysgol/Cangen , neu drwy gysylltu gyda dy Swyddog Cymunedol.

Bydd rhagbrofion ar gyfer cystadlaethau unigol gan amlaf (os na nodir yn wahanol gan y Swyddog Cymunedol)

Beth yw Rhagbrofion? Dyma rownd gyntaf o gystadlu os fydd nifer y cystadlu yn uchel. Bydd 3 yn cael eu dewis i berfformio eto ar lwyfan yr Eisteddfod Cylch.
NID canlyniad y gystadleuaeth yw hwn!

Mae'r 3 enw yma yn cael ei gyhoeddi a'i arddangos mewn ardal penodedig yn dilyn y rhagbrawf, cyn ail berfformio ar lwyfan yr Eisteddfod Cylch.

Yn ddibynnol ar eich rhanbarth, bydd y 1af, ac efallai 2il a 3ydd, yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Cylch yn yr Eisteddfod Rhanbarth.

Rhoddir tystysgrif 'Da iawn ti' i bawb fydd yn cystadlu yn unigol, fydd yn cynnwys sylwadau byr am y perfformiad.

Bydd y 3 uchaf yn derbyn Tystysgrif a beirniadaeth lawn.

Eisteddfod
a'r Celfyddydau

## 7 Eisteddfod Rhanbarth

Bydd dyddiadau'r Eisteddfod Rhanbarth ar gael ar wefan yr Urdd, drwy holi'r Ysgol/Cangen neu drwy gysylltu gyda dy Swyddog Cymunedol.

Mae ambell i Ranbarth yn cynnal Rhagbrofion, felly yn dilyn yr un broses a'r Eisteddfod Cylch.

Mae'r enillydd o bob gystadleuaeth yn cael eu gwahodd i'r Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Bydd y 3 uchaf yn derbyn Tystysgrif a beirniadaeth lawn.

## 8 Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd


Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn teithio o amgylch Cymru, gan ymweld ag ardal newydd yn flynyddol. Bydd Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn yn cael ei chynnal yng Nghae Sioe Môn rhwng Mai 23 - Mai 29, 2026.

Os yn fuddugol yn yr Eisteddfod Rhanbarth, fe gei wahoddad i gystadlu ar lefel Genedlaethol, ar un o brif lwyfannau'r Ŵyl ar faes yr Eisteddfod.

Mae amserlen penodol yn cael ei greu ac ar gael ychydig wythnosau cyn yr Eisteddfod, ar ein gwefan, yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y gystadleuaeth.

Yn dilyn y gystadleuaeth bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi ar lwyfan y Cyfrwy (llwyfan canlyniadau), lle derbynnir y 3 cyntaf eu tystysgrifau a medalau.

Mae beirniadaeth lawn ar gael ar gyfer pob cystadleuydd o Swyddfa'r Eisteddfod, sydd ar y Maes, yn dilyn y canlyniad.



**Pob lwc!**


Eisteddfodurdd

Eisteddfod yr Urdd

Eisteddfodurdd

eisteddfod@urdd.org
urdd.cymru/eisteddfod